Canllawiau i Fyfyrwyr sydd angen Cymorth Iaith Arwyddion Prydain (BSL)/Gweithiwr Cymorth Cyfathrebu (CSW) mewn amgylchedd ar-lein

Mewn lleoliad ar-lein, bydd angen i'ch cyfadran roi trefniadau ychwanegol ar waith i sefydlu sianel gyfathrebu breifat rhyngoch chi a'ch dehonglwr BSL/CSW. Bydd y sianel gyfathrebu hon yn cyd-redeg â phrif sesiwn cydamserol Blackboard Collaborate er mwyn caniatáu i ddehonglwyr BSL/CSW ddarparu dehongliad effeithiol a di-dor yn ystod y sesiwn Collaborate.

Sut mae'n gweithio?

- Bydd eich staff Academaidd yn sefydlu sesiwn cydamserol Blackboard Collaborate fel arfer ar gyfer y dosbarth cyfan.
- Dylai camerâu pawb sy'n cymryd rhan yn y sesiwn Collaborate gael eu diffodd a dim ond y rhai sy'n cyflwyno ddylai gael eu camera wedi'i droi YMLAEN.
- Dylai meicroffonau pawb sy'n cymryd rhan yn y sesiwn Collaborate gael eu distewi a dylid dweud wrth gyfranogwyr am godi eu llaw ac aros am ysgogiad i ddad-ddistewi eu meicroffon pan fyddant yn dymuno siarad.
- Os yw eich Academydd yn defnyddio ystafelloedd ymneilltuo yn ystod y sesiwn Collaborate, bydd angen iddynt sicrhau eich bod chi a'ch dehonglwyr yn cael eich neilltuo i'r un ***ystafell ymneilltuo***.
- Bydd eich staff Academaidd yn sefydlu cyfarfod Teams ar wahân am yr un amser/dyddiad â'r sesiwn Collaborate.
- Dim ond chi a'ch dehonglwyr fydd yn cael eich gwahodd i ymuno â'r sesiwn Teams. Y sesiwn Teams hon yw eich sianel gyfathrebu breifat gyda'ch staff cymorth.
- Bydd angen i chi a'ch dehonglwyr fod yn y sesiwn Collaborate AC yn y cyfarfod Teams ar yr un pryd (gall hyn olygu defnyddio dwy ddyfais ar wahân).